
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Huw Irranca-Davies AC
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant
Llywodraeth Cymru

8 Mai 2018

Annwyl Huw

Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 2 Mai i drafod ei flaenraglen waith ynghyd â'r meysydd gwaith y dymunai fwrw ymlaen â nhw. Roedd un o'r meysydd hynny'n ymwneud â'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd. Fodd bynnag, cyn gwneud unrhyw waith ar hyn, byddai'r Pwyllgor yn falch o gael gwybodaeth gennych am y sefyllfa bresennol.

Wrth gyflwyno'r Grant yn 2014, roedd Llywodraeth Cymru yn ceisio symleiddio'r ffordd roedd grantiau'n cael eu dyfarnu yn y maes hwn drwy gyflwyno proses ymgeisio. O ganlyniad, dyfarnwyd bron £9 miliwn i bum prif dderbynydd. Yn ogystal â hyn, tynnwyd arian oddi ar raglen y Ddraig Ffynci a Chwarae Cymru, er y gwyddom fod y penderfyniad yng nghyswllt Chwarae Cymru wedi'i wrth-droi.

Roedd disgwyl i'r Grant fod ar gael rhwng 2014 a 17 ond yna cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r grant i Blant yng Nghymru yn parhau dros dro tan fis Mawrth 2018. Mewn ymateb i Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad ym mis Mehefin 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant fod cyllid ar gyfer dau sefydliad wedi'i ymestyn:

'(WAQ70417) The Children and Families Delivery Grant was scheduled to expire on 30 September 2017. Two of the 5 funded projects, namely CWLWM (Childcare Wales Learning and Working Mutually) and Children in Wales, have been extended for a further 6 months to 31 March 2018. There are no plans for a replacement programme beyond March 2018.'




Mewn adroddiad penderfyniad a gyhoeddodd ar 8 Ionawr 2018, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at 'ddefnyddio'r arian sy'n weddill o'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd'. Nododd adroddiad penderfyniad dilynol gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth 2018, ei bwriad i gynnal adolygiad o drefniadau ariannu Plant yng Nghymru drwy'r Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd.

Mae'r penderfyniad diweddaraf hwn i adolygu trefniadau ariannu Plant yng Nghymru, a'r penderfyniadau blaenorol i ymestyn cyllid i ddau sefydliad y tu hwnt i'r dyddiad gwreiddiol, sef 2017, yn golygu bod y sefyllfa o ran y Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd yn aneglur, a byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth gennych am y Grant, gan gynnwys y cyllid a fydd ar gael, a phwy fydd yn manteisio arno.

Hefyd, a fydddech cystal â rhoi gwybodaeth inni am y sefyllfa ddiweddaraf am gyllid Chwarae Cymru a chopi o adroddiadau gwerthuso'r pum prosiect a ariannwyd ers 2014.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

